

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 10(6) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2017 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwasanaethau
Rheoleiddiedig (Datganiadau
Blynyddol) (Cymru) 2017**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 10(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru.

Mae adran 10(2) o'r Ddeddf yn nodi'r gofynion ar gyfer cynnwys y datganiad blynyddol.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 10(2)(a)(vii), (viii) a (ix), (3) a (4) o'r Ddeddf, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r wybodaeth am hyfforddiant a chynllunio'r gweithlu a gwybodaeth arall y mae rhaid ei chynnwys yn y datganiad blynyddol, i ragnodi ffurf y datganiad blynyddol ac i ragnodi'r terfyn amser y mae rhaid cyflwyno'r datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru ynddo.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol gynnwys gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion hyfforddiant staff.

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol gynnwys gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer recriwtio a chadw staff.

Mae rheoliad 5 a'r Atodlen yn ymdrin â gwybodaeth arall am y gwasanaeth a ddarperir ym mhob lleoliad y mae rhaid ei chynnwys yn y datganiad blynyddol, gan gynnwys gwybodaeth am staffio ac am y gwasanaeth a

ddarperir a'r wybodaeth benodol sy'n ofynnol pan fo'r gwasanaeth yn cynnwys y ddarpariaeth o lety.

Mae rheoliadau 6 a 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol ddod gyda datganiad o wirionedd gan y darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol. Bydd hwn yn darparu tystiolaeth o'r person sy'n gyfrifol am wneud datganiad yn y datganiad blynyddol os bydd erlyniad am drosedd o dan adran 47 o'r Ddeddf (datganiadau anwir).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

NEU

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 10(6) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2017 Rhif (Cy.)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Gwasanaethau
Rheoleiddiedig (Datganiadau
Blynyddol) (Cymru) 2017**

Gwnaed ***

Yn dod i rym ***

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 10(2)(a)(vii), (viii) a (ix), (3) a (4) ac adran 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(1).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 10(6) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [] Ebrill 2019 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

(1) 2016 dccc 2.

ystyr “datganiad blynyddol” (“*annual return*”) yw’r datganiad blynyddol y mae rhaid i ddarparwr gwasanaeth ei gyflwyno i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 10(1) o’r Ddeddf;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Gwybodaeth am hyfforddiant

3. Rhaid i ddatganiad blynyddol gynnwys disgrifiad o’r trefniadau sydd ar waith ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion hyfforddiant staff a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth mewn perthynas â phob un o’r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae’r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i’w darparu.

Gwybodaeth am gynllunio’r gweithlu

4. Rhaid i ddatganiad blynyddol gynnwys disgrifiad o’r trefniadau sydd ar waith ar gyfer recriwtio a chadw staff a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth mewn perthynas â’r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae’r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i’w darparu.

Gwybodaeth arall

5. Rhaid i ddatganiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ychwanegol a bennir yn yr Atodlen mewn perthynas â phob un o’r manau y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef.

Datganiad o wirionedd

6. Rhaid i ddatganiad blynyddol ddod gyda datganiad wedi ei lofnodi gan y darparwr gwasanaeth sy’n cadarnhau ei fod wedi darllen yr wybodaeth ac yn cytuno â’r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y datganiad blynyddol sy’n ymwneud â’r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae’r darparwr wedi ei gofrestru i’w darparu.

7. Rhaid i ddatganiad blynyddol ddod gyda datganiad wedi ei lofnodi gan bob unigolyn cyfrifol sy’n cadarnhau ei fod wedi darllen yr wybodaeth ac yn cytuno â’r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y datganiad blynyddol sy’n ymwneud â’r man y mae wedi ei ddynodi ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef gan y darparwr gwasanaeth fel yr unigolyn cyfrifol.

Ffurf y datganiad blynyddol

8. Rhaid i ddatganiad blynyddol gael ei wneud drwy gwblhau’r ffurflen sy’n ymddangos ar y dudalen berthnasol o wefan Llywodraeth Cymru a sefydlir at

ddiben hysbysu darparwyr cofrestredig am y gofynion ar gyfer llunio a chyflwyno datganiadau blynyddol.

Terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol

9. Rhaid i ddatganiad blynyddol gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

Enw

Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

YR ATODLEN Rheoliad 5

Gwybodaeth i gael ei chynnwys yn y datganiad blynyddol

Gwybodaeth gyffredinol

1. Manylion cyswllt.

Gwybodaeth am staffio

2. Enw'r rheolwr.

3. Cyfanswm nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag).

4. Nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi a'r swyddi gwag ym mhob un o'r categorïau a ganlyn—

- (a) Rheolwr;
- (b) Dirprwy Reolwr;
- (c) Staff goruchwylio eraill;
- (d) Staff gofal nyrsio;
- (e) Uwch staff gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol;
- (f) Staff gofal cymdeithasol eraill sy'n darparu gofal uniongyrchol;
- (g) Staff domestig;
- (h) Staff arlwyo;
- (i) Mathau eraill o staff nad ydynt wedi eu rhestru uchod.

5. Os yw nifer y staff a gyflogir yn cynnwys staff o fath nad yw wedi ei restru ym mharagraff 4(a) i (h), manylion y math neu'r mathau o'r staff hynny.

6. Cyfradd trosiant staff.

7. Y mathau o drefniadau contractiol y mae staff wedi eu cyflogi arnynt a nifer y staff a gyflogir ar bob math o drefniant contractiol ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 4.

8. Cymwysterau'r staff a gyflogir ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 4.

9. Manylion unrhyw hyfforddiant perthnasol y mae staff a gyflogir ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 4 wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod y maent wedi eu cyflogi ynddo gan y darparwr gwasanaeth.

Gwybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir

10. Manylion y raddfa ffioedd sy'n daladwy gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

11. Manylion yr ieithoedd a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth.

12. Manylion unrhyw ddulliau cyfathrebu nad ydynt yn rhai llafar a ddefnyddir.

13. Cyfanswm nifer y cwynion ffurfiol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a chyfran y cwynion hynny na chawsant eu cadarnhau, a gafodd eu cadarnhau'n rhannol ac a gafodd eu cadarnhau.

14. Manylion y trefniadau a wneir ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth ynghylch gweithrediad y gwasanaeth rheoleiddiedig.

Gwybodaeth ychwanegol pan fo'r gwasanaeth yn cynnwys y ddarpariaeth o lety

15. Patrymau sifft nodweddiadol y staff a gyflogir, gan ddangos nifer y staff ym mhob un o'r categorïau a restrir ym mharagraff 4(d), (e) ac (f) sydd ar ddyletswydd yn ystod pob sifft.

16. Nifer yr ystafelloedd gwely sengl ac ystafelloedd gwely a rennir.

17. Nifer yr ystafelloedd gwely a chanddynt gyfleusterau en suite.

18. Nifer y lolfeydd/ystafelloedd bwyta cymunedol.

19. Nifer yr ystafelloedd ymolchi a chanddynt gyfleusterau cymorth ymolchi.

20. Manylion unrhyw le yn yr awyr agored y mae gan y preswylwyr fynediad iddo.

21. Manylion unrhyw gyfleusterau eraill y mae gan y preswylwyr fynediad atynt.